Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

12 Mehefin 2008

Pontio'r bwlch – Cynllunio'r cyfnod trosglwyddo yng Nghymru

Heddiw, mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi argymhellion ac arweiniad i ysgolion a'u partneriaid ar sut i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt symud rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd.

Wrth symud rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gall plant golli tir yn aml os nad ydynt yn cael addysgu a chymorth sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd.

Mae'r symudiad hwn o addysg gynradd i addysg uwchradd yn drawsnewidiad allweddol i bobl ifanc. Os na chaiff ei reoli'n llwyddiannus, gall gael canlyniadau niweidiol difrifol ar eu dysgu a'u datblygiad wedi hynny. Yn 2006, cyflwynwyd gofyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bod ysgolion uwchradd a gynhelir a'u hysgolion cynradd bwydo a gynhelir yn llunio cynlluniau trosglwyddo ar y cyd i gynorthwyo'r broses trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dywedodd Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: "Mae cynlluniau trosglwyddo yn fecanwaith allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd i weithio gyda'i gilydd i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion plant wrth iddynt symud rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd. Rydym yn cydnabod bod yr arfer orau yn seiliedig ar gydweithredu da rhwng ysgolion, ac adlewyrchir hyn yn natur gadarnhaol yr adroddiad hwn.

"Hoffwn weld ysgolion yn adeiladu ar yr agweddau ar arfer dda a gyflwynir yma, ac yn gwella ymhellach ansawdd eu cynlluniau trosglwyddo i helpu pontio'r bwlch pwysig hwn."

Mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd bwydo greu cynlluniau trosglwyddo manwl yn ffurfioli'u trefniadau i weithio gyda'i gilydd ar faterion yn ymwneud â'r cwricwlwm, dysgu ac asesu.

Mae arfer dda yn digwydd pan fydd ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynlluniau gwaith sy'n rhychwantu cyfnodau allweddol 2 a 3 i wneud y gwaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 yn fwy heriol ac i osgoi ailadrodd gwaith y mae disgyblion eisoes wedi'i wneud yn yr ysgol gynradd.

Mae agweddau eraill ar arfer gadarnhaol yn cynnwys athrawon cynradd ac uwchradd yn arsylwi gwersi yn ysgolion ei gilydd a rhannu hyfforddiant mewn swydd i gytuno ar ddulliau addysgu sy'n galluogi disgyblion i wneud y cynnydd gorau posibl.

Canfu arolygwyr Estyn, er bod y genhedlaeth gyntaf o gynlluniau trosglwyddo yn bodloni gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru at ei gilydd, eu bod yn gallu amrywio'n sylweddol o ran ansawdd rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar rai meysydd allweddol i'w gwella i ysgolion wrth greu cynlluniau trosglwyddo.

Er enghraifft, canfu Estyn ddiffygion yn y ddarpariaeth trefniadau i sicrhau parhad mewn Cymraeg fel ail iaith wrth i ddisgyblion symud i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Gall hyn arwain at y gwaith yn cael ei osod ar y lefel anghywir, a'r disgyblion yn cael gwaith ailadroddus a lefel isel sy'n ddiflas iddynt.

Mae adroddiad Estyn yn esbonio hefyd fod rhai ysgolion wedi methu ymgynghori digon â rhieni a disgyblion i adael iddynt ddylanwadu ar y cynlluniau. Dylai ysgolion ffurfioli'u trefniadau i roi ystyriaeth lawn i farnau disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 7 o'r farn bod athrawon a gweithgareddau trosglwyddo wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu hysgol newydd.

Mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd adeiladu ar y gwaith da maent yn ei wneud drwy wneud yn siwr bod amcanion clir yn y cynlluniau trosglwyddo ar gyfer gwelliant, a'u bod yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae Estyn yn argymell hefyd fod cynlluniau trosglwyddo'n canolbwyntio ar y rheiny sydd ag anghenion penodol, gan gynnwys cyflawnwyr uchel a'r rheiny y mae angen lefel uwch o gymorth arnynt, gan mai'r rhain yw'r grwpiau y mae'n debygol yr effeithir arnynt fwyaf wrth iddynt symud rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chynghori o safon uchel.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Lawrie Jones
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464